**CABINET - DYDD MAWRTH, 3 CHWEFROR 2026**

COFNODION CYFARFOD y Cabinet A GYNHALIWYD ar ffurf hybrid yn Siambr y Cyngor – Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB / o bell drwy Microsoft Teams ddydd Mawrth, 3 Chwefror 2026 AM 14:30

Yn Bresennol

Y Cynghorydd JC Spanswick – Arweinydd a Chadeirydd

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| E L P Caparros | J Gebbie | N Farr | G Haines | M Jones | H Williams | M Evans |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Technegol |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau Dysgu |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd |
| Gaynor Thomas | Rheolwr, Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy |
| Adam Provoost | Rheolwr Cynllunio Strategol – Cludiant |
| Jack Dangerfield | Uwch Swyddog Polisi Cynllunio Strategol |
| Robin Davies | Rheolwr Grŵp, Strategaeth, Perfformiad a Chymorth |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

Gwahoddedigion:

Y Cynghorydd JP Blundell

Y Cynghorydd A Ulberini-Williams

-

**585. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dim |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 3 Chwefror 2026 |

**586. Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Datganodd y Cynghorydd Neelo Farr fuddiant personol yn Eitem 10 ar yr Agenda, oherwydd ei bod yn byw gyferbyn ag ysgol gychwynnol newydd Porthcawl<br>Datganodd y Cynghorydd Hywel Williams fuddiant personol yn Eitem 12 ar yr Agenda, fel Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Abercerdin. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 3 Chwefror 2026 |

**587. Cymeradwyo Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo cofnodion 13/01/2026 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 3 Chwefror 2026 |

**588. Argymhelliad Craffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu – Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu – Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai adroddiad, a phwrpas yr adroddiad hwnnw oedd cyflwyno argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu – Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai o'u cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Tachwedd 2025, wrth ystyried adroddiad ar y Strategaeth Sero Net.<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau ag Aelod o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhelliad a ganlyn:<br><br>Cynghorodd fod y Pwyllgor wedi mynegi pryder ynglŷn â'r annhebygolrwydd o gyrraedd y targed o sero net erbyn 2030 o ystyried y cyllid ar gyfer y gost a nodwyd o £109.65 miliwn ar gyfer gweithredu a fyddai ei angen ac argymhellodd y dylai'r Cabinet ailystyried ei ymrwymiad i darged 2030 a gofyn i Lywodraeth Cymru adolygu ei tharged ar gyfer sero net a darparu arweiniad ar sut i fwrw ymlaen.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet wedi ystyried argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu – Cymunedau, yr Amgylchedd a Thai a chadarnhau y byddent yn ymateb i hyn, maes o law. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 3 Chwefror 2026 |

**589. Argymhellion Craffu ar Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2026–27 i 2029–30 a'r Broses Ymgynghori ar y Gyllideb Ddrafft**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol adroddiad, a'i bwrpas oedd cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol (COSC) i'r Cabinet, fel y Pwyllgor Craffu sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am graffu ar y gyllideb, mewn perthynas â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) ddrafft gan gynnwys y pwysau cyllideb arfaethedig a'r cynigion i leihau'r gyllideb, a'r cynigion i wario'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Atgoffodd y Cabinet, mewn cyfarfod o'r COSC ar 27 Ionawr 2026, fod aelodau wedi ystyried fersiwn ddrafft Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2026–27 i 2029–30, a oedd yn nodi blaenoriaethau gwariant y Cyngor, amcanion buddsoddi allweddol a meysydd cyllideb wedi'u targedu ar gyfer arbedion angenrheidiol |

| | |
|---|---|
| | a oedd yn cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2026–2030, cyllideb refeniw ddrafft fanwl ar gyfer 2026–27, y cynigion ar gyfer gwario'r cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Wedi hynny, cytunodd y Pwyllgor ar Argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet, fel rhan o'r broses ymgynghori ar gyllideb 2026–27 ac atodwyd tabl o'r Argymhellion yn Atodiad A i'r adroddiad ar gyfer ymateb y Cabinet.<br><br>Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor grynhoad o'r rhain er lles y rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfod.<br><br>Croesawodd yr Arweinydd a'r aelod o'r Cabinet – Cyllid a Pherfformiad yr adborth gan y Pwyllgor a diolchodd i'r holl aelodau (a Swyddogion) hynny a oedd wedi bod yn rhan o ystyriaethau cyllideb y flwyddyn i ddod.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet wedi ystyried a chadarnhau y byddai'n ymateb i Argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol, drwy Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2026–27 i 2029–30. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 3 Chwefror 2026 |

**590. Cynllun Cysylltu Bywydau**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd a'r aelod o'r Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles adroddiad, yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau ymgynghoriad ynghylch newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Cysylltu Bywydau (Lleoliad Oedolion) ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan Gyngor Bro Morgannwg drwy Gytundeb Partneriaeth, ac ar hyn o bryd roedd 16 o unigolion mewn lleoliadau hirdymor, ac 13 o aelwydydd Cysylltu Bywydau (naill ai gofalwyr sengl neu gyplau).<br><br>Cynghorodd fod y Cabinet ym mis Mawrth 2025 wedi cymeradwyo parhad y bartneriaeth hon am dymor o 5 mlynedd yn amodol ar adolygiad blynyddol. Y cynnig yw i bob unigolyn a gofalwr hunangyflogedig o fewn y cynllun symud i system dalu fandiedig er mwyn gwneud hon yn system decach i bawb sy'n cymryd rhan.<br><br>Byddai'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal i sicrhau y gellir ystyried barn y rhai yr effeithir arnynt, gyda'r |

<table>
<tr><td></td><td>ymgynghoriad arfaethedig yn cael ei gynnal ar y cyd â Chyngor Bro Morgannwg fel partner gweithredol Cyngor Bwrdestref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Mae Cyngor Bro Morgannwg hefyd yn ceisio ymgynghoriad tebyg, meddai.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau lawer o gwestiynau, sef:-<br><br>• A fyddai perygl y bydd rhai gofalwyr maeth yn gadael eu swyddi pe baent yn cael eu rhoi ar fand cyflog gradd is?<br>• O ran gofalwr sy'n gofalu am blentyn sydd wedyn yn dod yn oedolyn, a ddylai fod yn rhaid i'r gofalwr hwnnw ailgofrestru fel Gofalwr Cysylltu Bywydau, neu a allai aros yn ei rôl bresennol fel Gofalwr Maeth?<br>• Pryd yn y gwanwyn fydd yr ymgynghoriad 12 wythnos yn dechrau?<br><br>Atebwyd y cwestiynau hyn gan y Dirprwy Arweinydd a'r aelod o'r Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles a/neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:<br><br>• Wedi cymeradwyo dechrau'r ymgynghoriad am gyfnod o 12 wythnos ynghylch y newidiadau arfaethedig a amlinellir yn yr adroddiad, gan nodi y bydd y broses yn cael ei chydlynu â Chyngor Bro Morgannwg a rhanddeiliaid eraill o wanwyn 2026;<br><br>• Wedi nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn dilyn yr ymgynghoriad.</td></tr>
<tr><td>Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad</td><td>3 Chwefror 2026</td></tr>
</table>

**591. Tai Amlfeddiannaeth – Canllawiau Cynllunio Atodol (Drafft)**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd yr aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai adroddiad, er mwyn rhoi gwybod |

| | |
|---|---|
| | i'r Cabinet am ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos ar fersiwn ddrafft y Canllawiau Cynllunio Atodol – Tai Amlfeddiannaeth; y sylwadau a dderbyniwyd a'r materion a godwyd; ymateb yr Awdurdod Cynllunio Lleol (LPA); a sut mae'r sylwadau hynny wedi dylanwadu ar fersiwn derfynol y CCA. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno ffurf derfynol y CCA i'r Cyngor i'w mabwysiadu (Atodiad 1 o'r adroddiad y cyfeiriwyd).<br><br>Ychwanegodd y bydd mabwysiadu'r CCA yn galluogi gweithredu'n effeithiol y polisi ar Dai Amlfeddiannaeth o fewn y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (RLDP) a fabwysiadwyd, sef dogfen gynllunio defnydd tir statudol y Cyngor.<br><br>Dywedodd aelod fod rhywfaint o bryder mewn cymunedau ar adegau ynglŷn â lefel y dwysedd sy'n ymwneud â rhai Tai Amlfeddiannaeth, er ei fod yn cyfaddef bod y fformiwla a ddyfeisiwyd yn yr achos hwn yn ymddangos yn deg ac yn gyfrifol. Gofynnodd, fodd bynnag, pa ddarpariaethau oedd gennym ar waith i'r fformiwla gael ei monitro dros amser a'i adolygu a'i haddasu, os oes angen.<br><br>Cynghorodd yr Uwch Swyddog Polisi Cynllunio Strategol y byddai'r Polisi (a'r Cynllun Datblygu Lleol, h.y. CDLl), yn cael ei fonitro drwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol a'i ddiwygio fel rhan o'r broses hon, os ystyrir ei fod yn angenrheidiol.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:<br><br>(a) Wedi nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbyniwyd ar y CCA drafft ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth, ynghyd â'r gwelliannau arfaethedig canlyniadol sydd ynghlwm yn Atodiad 2 i'r adroddiad.<br><br>(b) Wedi nodi a chymeradwyo cynnwys y nodyn canllaw dwy dudalen o'r enw 'Canllaw i Reoliadau ac Adeiladu ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth' ynghlwm fel Atodiad 3.<br><br>(c) Wedi cymeradwyo cyflwyno ffurf derfynol y CCA drafft ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth (yn Atodiad 1) i'r Cyngor i geisio ei fabwysiadu. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 3 Chwefror 2026 |

| | |
|---|---|

**592. Diweddariad am Ddyraniad Cronfa Effaith Balchder Bro Llywodraeth y DU ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Amlinellodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai adroddiad ar yr uchod, er mwyn rhoi diweddariad am Gronfa Effaith Balchder Bro Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd yn ddiweddar a'r dyraniad ariannol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd yr adroddiad yn nodi cynnig ar gyfer gwariant ledled y Fwrdeistref Sirol, y gofynnir i'r Cabinet ei gymeradwyo, ac roedd yn ceisio awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Cymunedau gwblhau'r rhaglen a'r mecanweithiau cyflawni perthnasol, gan gynnwys sefydlu cynllun grant cyfalaf.<br><br>Cyfeiriodd aelod at baragraff 3.3 o'r adroddiad sy'n cyfeirio at Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cyfathrebu a Llywodraeth Leol a gofynnodd a allai'r Cabinet weld hyn, a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau y gallent wneud hynny.<br><br>Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau y byddai Sesiwn Friffio i Aelodau yn cael ei threfnu pan gaiff y Gronfa ei lansio, er mwyn esbonio'r broses ynghylch llwybrau cyllido i aelodau, er mwyn iddynt allu rhannu hyn gyda'u grwpiau cymunedol, gan gynnwys sut i ymgeisio am gyllid yn unol â'r meini prawf cymhwyso ar gyfer hyn. Ychwanegodd fod yn rhaid gwario'r cyllid o £3m yn llawn erbyn 31 Mawrth 2027, felly roedd mynegiadau o ddiddordeb a cheisiadau am ddyrannu'r cyllid yn cael eu ceisio cyn dyddiad cau o 8 Ebrill 2026.<br><br>Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau ymhellach y byddai ymgyrch gyfathrebu lawn yn cael ei chynnal i hysbysebu'r gronfa. Gellid gwario'r cyllid yn unrhyw le yn y fwrdeistref sirol, ar yr amod ei fod yn cyflawni un neu fwy o amcanion y gronfa fel yr amlinellir ym mharagraff 2.5 o'r adroddiad.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi nodi cynnwys yr adroddiad hwn, gan ystyried y dyraniad ariannol a ddarperir gan Gronfa Effaith Balchder Bro Llywodraeth y DU a'r cyfleoedd y mae'n eu cyflwyno.<br><br>2. Wedi cymeradwyo cyflawniad arfaethedig y Gronfa Effaith |

| | |
|---|---|
| | Balchder Bro ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel y nodir yn adran 3 o'r adroddiad.<br><br>3. Wedi dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Polisi Corfforaethol ac Adnoddau Dynol a'r Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol, i gwblhau'r rhaglen a'r mecanweithiau cyflawni, gan gynnwys sefydlu cynllun grant cyfalaf. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 3 Chwefror 2026 |

## 593. Polisi Derbyn Ysgolion 2027–2028 a Threfniadau Derbyn Cydlynol 2028–2029

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet – Gwasanaethau Addysg ac Ieuenctid, oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Polisi Derbyn Ysgolion 2027–2028 (gweler Atodiad A i'r adroddiad) a chynghori'r Cabinet bod Trefniadau Derbyn Ysgolion Cydgysylltiedig 2027–2028, a gymeradwywyd ac a fabwysiadwyd yn flaenorol, wedi'u mabwysiadu heb newid ar gyfer 2028–2029.<br><br>Mae derbyn disgyblion yn gyfrifoldeb statudol, sy'n cefnogi'r gwaith o godi safonau addysgol a lles plant, pobl ifanc a'u cymunedau lleol.<br><br>Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn ei gwneud yn ofynnol bod trefniadau derbyn ysgolion ar gyfer 2027–2028 yn cael eu penderfynu erbyn 15 Ebrill 2026 a bod yr awdurdod lleol yn llunio ac yn mabwysiadu Trefniadau Derbyn Cydgysylltiedig bob blwyddyn.<br><br>Gofynnodd aelod pa mor aml y cafodd yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg ei adolygu, a chynghorodd Rheolwr y Grŵp, Perfformiad y Strategaeth a Chymorth, fod hyn yn cael ei wneud yn flynyddol, ar y cyd â chymeradwyo'r Polisi Derbyn Ysgolion. |

| | |
|---|---|
| | Nododd yr aelod hefyd fod bwlch o 9.2% o ran sgiliau Cymraeg poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr o'i chymharu ag ardaloedd eraill o Gymru. Gofynnodd felly, pa gynlluniau oedd ar waith i wella'r ystadegyn hwn?<br><br>Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd fod yr amcan hwn yn faes yr anelir at ei wella yng Nghynllun Strategol Addysg statudol 10 mlynedd Cymru yn ogystal ag yn Adroddiad Arolygu Awdurdodau Lleol 2019.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi cymeradwyo Polisi Derbyn Ysgolion 2027–2028 (yn Atodiad A); ac<br><br>2. Wedi cydnabod mabwysiadu Trefniadau Derbyn Cydlynol Ysgolion 2028–2029 (Atodiad B). |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 3 Chwefror 2026 |

**594. Rhaglen Moderneiddio Ysgolion: Ysgol Gychwynnol a Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg Porthcawl**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd yr Aelod Cabinet – Gwasanaethau Addysg ac Ieuenctid adroddiad, a'i bwrpas oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i wahodd tendrau ar gyfer cynllun Ysgol Gychwynnol Cyfrwng Cymraeg a Gofal Plant Porthcawl, gyda dyfarniad y contract yn amodol ar y Cyngor yn cael cymeradwyaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer elfen gofal plant y cynllun (ni ddyfernir y contract hyd nes y cadarnheir y cyllid ac y rhoddir caniatâd cynllunio).<br><br>Nododd yr Arweinydd fod Llywodraeth Cymru yn mynd i ariannu'r prosiect yn llawn, ond gofynnodd, fodd bynnag, a oedd dyddiad agor arfaethedig wedi'i bennu ar gyfer yr ysgol newydd eto.<br><br>Dywedodd y Rheolwr, Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fod dyddiad agor yr ysgol wedi'i fwriadu, i ddechrau, |

| | |
|---|---|
| | ar gyfer Medi 2026, ond mae hyn bellach wedi'i ohirio oherwydd bod caniatâd cynllunio ar gyfer yr ysgol yn dal i gael ei ddisgwyl yn ogystal ag oedi hefyd i elfen gofal plant y cynllun.<br><br>Gofynnodd aelod faint o staff FTE fydd yn yr ysgol.<br><br>Cadarnhaodd y Rheolwr, Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fod hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan gorff Llywodraethu'r Ysgol.<br><br>Nodwyd na fyddai plant ardal Porthcawl bellach yn gorfod teithio i Ysgol y Ferch o'r Sgêr yng Ngogledd Corneli ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg pan fydd yr ysgol newydd yn agor.<br><br>Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd beth fyddai'r gost o ran llithriant y cynllun.<br><br>Cynghorodd y Rheolwr, Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y byddai'n edrych ar ymateb addas i'r cwestiwn hwn ac yn dod yn ôl at yr aelod y tu allan i'r cyfarfod.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet wedi rhoi cymeradwyaeth i wahodd tendrau ar gyfer cynllun Ysgol Gychwynnol a Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg Porthcawl, gan ddyfarnu'r contract yn amodol ar i'r Cyngor gael cymeradwyaeth am gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer elfen gofal plant y cynllun. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 3 Chwefror 2026 |

## 595. Monitro Cyllideb 2025–2026 – Rhagolwg o Refeniw Chwarter 3

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd yr aelod o'r Cabinet – Cyllid a Pherfformiad adroddiad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar sefyllfa ariannol refeniw y Cyngor ar 31 Rhagfyr 2025.<br><br>Cadarnhaodd yr adroddiad:-<br><br>• Y gyllideb refeniw net ar gyfer 2025–26 yw £383.226 miliwn. |

| | |
|---|---|
| | • Mae'r sefyllfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn a ragwelir ar 31 Rhagfyr 2025 yn danwariant net o £9.256 miliwn (2.4% o'r gyllideb refeniw net).<br>• Rhagwelir bod tanwariant o £8.652 miliwn ar gyllidebau ledled y Cyngor. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â llog ychwanegol a ragwelir o fuddsoddiadau cyfredol (£1.599 miliwn) ac arbedion ar daliadau Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) yn dilyn y newid yn y polisi ar gyfrifo MRP (£1.004 miliwn), grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru tuag at ddyfarniad cyflog athrawon 2025–26 ynghyd â dyfarniadau cyflog y Cydgyngor Cenedlaethol (NJC) a gadarnhawyd yn is na'r hyn a ddarperir ar eu cyfer.<br>• Mae pwysau sylfaenol ar gyllidebau'r gyfarwyddiaeth yn parhau i fod yn bennaf o fewn Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaethau Plant a Chyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr.<br>• Roedd y gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2025–26 yn cynnwys cynigion i leihau'r gyllideb werth cyfanswm o £8.379 miliwn. Mae'r sefyllfa bresennol yn ddiffyg rhagamcanedig ar y targed arbedion o £973,000, neu 10.81% o'r targed gostyngiad cyffredinol.<br><br>Nododd y Cabinet elfennau cadarnhaol Rhagolwg Refeniw Chwarter 3 fel y manylir yn naratif yr adroddiad.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet wedi nodi sefyllfa'r refeniw rhagamcanol ar gyfer 2025–26. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 3 Chwefror 2026 |

## 596. Rhaglen Gyfalaf – Diweddariad Chwarter 3 2025–26

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dywedodd yr aelod o'r Cabinet – Cyllid a Pherfformiad fod paragraff 3.5.3 o'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd bob chwarter i'r Cabinet a'r Cyngor gyda diweddariad ar y Strategaeth Gyfalaf a'r Dangosyddion Darbodus.<br><br>Darparodd yr adroddiad:-<br><br>• ddiweddariad am wariant chwarter 3 a'r gwariant a ragwelir ar gyfer 2025–26 ar 31 Rhagfyr 2025, y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2025–26 i 2034–35 a'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelir ar gyfer 2025–26.<br>• Roedd Atodiad A i'r adroddiad yn adlewyrchu'r cyllidebau, y gwariant hyd yma a'r gwariant diwedd blwyddyn a ragwelir ar 31 Rhagfyr 2025 ar gyfer y cynlluniau unigol yn 2025–26. |

| | |
|---|---|
| | • Dangosodd Atodiad B y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2025-26 i 2034-35, a<br>• Rhoddodd Atodiad D fanylion y Dangosyddion Darbodus ac Eraill gwirioneddol ar gyfer 2024–25 a'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelir ar gyfer 2025-26.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:<br><br>• Wedi nodi diweddariad Chwarter 3 Rhaglen Gyfalaf 2025–26 y Cyngor hyd at 31 Rhagfyr 2025 (yn Atodiad A i'r adroddiad)<br><br>• Wedi cytuno bod y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad B) yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo.<br><br>• Wedi nodi'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill gwirioneddol ar gyfer 2024–25 a'r dangosyddion rhagamcanol ar gyfer 2025–26 (Atodiad C). |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 3 Chwefror 2026 |

## 597. Blaenraglenni Gwaith y Cabinet, y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol adroddiad er mwyn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynnwys eitemau ar Flaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod 1 Mawrth 2026 i 31 Awst 2026 ac i'r Cabinet nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar gyfer yr un cyfnod.<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi cymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod o 1 Mawrth 2026 i 31 Awst 2026 yn Atodiad 1 i'r adroddiad; ac |

| | |
|---|---|
| | 2. Wedi nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar gyfer yr un cyfnod, fel y dangosir yn Atodiad 2 ac Atodiad 3 i'r adroddiad, yn y drefn honno. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 3 Chwefror 2026 |

**598. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Nid oedd unrhyw eitemau brys. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 3 Chwefror 2026 |

**599. Gwahardd y Cyhoedd**

| | | |
|---|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: | Na ddylid cyhoeddi'r eitem ganlynol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 o Ran 21 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.<br><br>Ar ôl cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd, penderfynodd y Cabinet, yn unol â'r Ddeddf, i ystyried yr eitem hon yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth honno. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 3 Chwefror 2026 | |

## 600. Caffael Eiddo Strategol Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod yr eitem hon wedi'i heithrio ac ni ddylai gael ei chyhoeddi |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 3 Chwefror 2026 |